

# Cynllun drafft 10 mlynedd ar gyfer y gweithlu blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae yng Nghymru

## Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Eich enw: Sue Williams

Sefydliad (os yw'n berthnasol): Cyfoeth Naturiol Cymru

e-bost/rhif ffôn: 0300 065 3000

Eich cyfeiriad: Clawddnewydd, Rhuthun, Sir Ddinbych LL21 9HP

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn **15 Rhagfyr 2014** at

Tîm y Blynyddoedd Cynnar  
Yr Adran Addysg a Sgiliau a'r Adran Cymunedau a Threchu Tlodi  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

neu llenwch y ffurflen yn electronig a'i hanfon drwy'r

e-bost: [earlyyears@wales.gsi.gov.uk](mailto:earlyyears@wales.gsi.gov.uk)



**Cyfoeth  
Naturiol  
Cymru**  
**Natural  
Resources  
Wales**

---

**Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yw'r corff cyhoeddus mwyaf a noddir gan Lywodraeth Cymru. Mae ganddo ychydig llai na 2000 o staff a chyllideb gweithredu o £17 miliwn, ac mae'n rheoli 7% o'r tir yng Nghymru. Ein diben yw sicrhau bod amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru yn cael eu cynnal yn gynaliadwy, eu gwella'n gynaliadwy a'u defnyddio'n gynaliadwy, yn awr ac i'r dyfodol.**

**Nod Cyfoeth Naturiol Cymru:**

***"..... yw chwarae rhan ganolog yn y gwaith o sicrhau datblygu cynaliadwy i Gymru. Mae hyn yn golygu dod â'r gwaith o reoli ein hadnoddau naturiol a'n hamgylchedd ynghyd mewn ffordd gytbwys ac integredig, er mwyn sicrhau buddion i'r bobl, yr amgylchedd a'r economi"***

**Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n croesawu'r cyfle i gyflwyno sylwadau ar yr ymgynghoriad hwn. Ein nod yw tynnu sylw at bwysigrwydd rheoli adnoddau naturiol, yr angen i wreiddio'r amgylchedd a datblygu cynaliadwy yn yr ystyr ehangaf yn y cwricwlwm a phwysigrwydd dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth ar gyfer pob cyfnod allweddol.**

Mae'r cwestiynau isod yn ymwneud â'r cynigion a'r argymhellion a amlinellir yn y *Cynllun drafft 10 mlynedd ar gyfer y gweithlu blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae yng Nghymru*. Mae rhifau'r tudalennau a nodir ar ôl pob cwestiwn yn cyfeirio at y ddogfen honno.

## 1. Arweinyddiaeth

Nodwyd yn argymhelliad 4 o'r Archwiliad o'r Cyfnod Sylfaen y dylid sefydlu:

hyfforddiant gorfodol ar gyfer arweinwyr o fewn y sector cyfan, gan gynnwys arweinwyr strategol yn y Wlad, consortia, penaethiaid cynradd, staff cynghori, arweinwyr lleoliadau nas cynhelir a ariennir a gwasanaethau i ategu eu dealltwriaeth o egwyddorion ac arferion y Cyfnod Sylfaen. Dylai'r hyfforddiant gael ei deilwra i'r gynulleidfa ac ystyried ei hanes a phrofiadau blaenorol a chynnwys ymchwil sy'n dangos sut y gall gweithredu'r Cyfnod Sylfaen yn effeithiol gefnogi safonau ac effeithio ar dwf cymdeithasol ac economaidd yn gyffredinol.

**Cwestiwn 1** – A ydych yn cytuno y dylai fod hyfforddiant gorfodol ar gyfer arweinwyr i ategu eu dealltwriaeth o egwyddorion ac arferion y Cyfnod Sylfaen? (t 21)

Cytuno

√

Anghytuno

Ddim yn cytuno  
nac yn anghytuno

### Sylwadau ychwanegol

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n cytuno y dylai fod hyfforddiant gorfodol ar gyfer arweinwyr i ategu eu dealltwriaeth o egwyddorion ac arferion y Cyfnod Sylfaen. Dylai'r egwyddorion ac arferion gynnwys dealltwriaeth glir o ddysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth yn yr amgylchedd naturiol a chwarae yn yr awyr agored, sydd ill dau'n agweddau annatod o addysgeg y Cyfnod Sylfaen.

Mae'n bwysig ennyn diddordeb a gwerthfawrogiad o'r amgylchedd naturiol o fore oes. Ymysg y buddion lu, mae tystiolaeth yn dangos bod dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth yn cael effaith gadarnhaol ar y plant hynny nad ydynt yn perfformio'n dda yn yr ystafell ddosbarth, ac y gall helpu i arwain at ffordd iachach o fyw yn y dyfodol.

Er gwaethaf yr hyfforddiant cynnar trwy Fodiwl 6 o Becyn Hyfforddiant Cenedlaethol y Cyfnod Sylfaen a chyhoeddi dogfen rhif 0022/2007 – Dysgu y Tu Allan i'r Ystafell Ddosbarth, ar hyn o bryd mae diffyg profiad ymarferol a phrofiad awyr agored ymysg rhai ymarferwyr addysgol, yn arbennig y rheiny sydd newydd ddod i'r proffesiwn. Mae'n hanfodol bod gan arweinwyr wybodaeth am ddysgu yn yr awyr agored a phrofiad ohono er mwyn cynorthwyo eu staff yn yr agwedd bwysig hon ac i hyn gael ei ddiweddarau trwy hyfforddiant rheolaidd.

**Byddai Cyfoeth Naturiol Cymru'n falch o gynorthwyo gydag unrhyw hyfforddiant o'r fath trwy ddarparu adnoddau (gweithgareddau a syniadau), tir diogel a hygyrch a staff addysg hyfforddedig.**

**Cwestiwn 2** – A ydych yn cytuno y byddai'r model o ganolfan ddysgu sydd wedi'i gynnwys yn y cynllun drafft 10 mlynedd yn annog mwy o gydweithio yn y sector blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae ac yn helpu i gefnogi rhwydwaith sy'n gwella ei hun? (t 24)

**Cytuno**

√

**Anghytuno**

**Ddim yn cytuno  
nac yn anghytuno**

### **Sylwadau ychwanegol**

**Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n cydnabod gwerth cydweithio a'r rhan y gall rhwydweithiau ei chwarae yn y gwaith o hwyluso CPD a hunan wella.**

**Hoffem dynnu'ch sylw at Rwydwaith Dysgu yn yr Awyr Agored Cymru fel enghraifft o grwpiau lleol sy'n deall anghenion lleol ac yn cynorthwyo ymarferwyr a darparwyr i hyrwyddo buddion dysgu yn yr awyr agored i bobl o bob oed.**

<http://www.outdoorlearningwales.org/home?lang=cy>

**Bydd llawer o aelodau unigol a sefydliadol (yn y trydydd sector, darparwyr annibynnol, cyrff yn y sector cyhoeddus, cyrff anllywodraethol, awdurdodau lleol) yn gallu cyfrannu at y canolfannau dysgu arfaethedig, trwy sgiliau a phrofiad sy'n gysylltiedig â dysgu yn yr awyr agored, dysgu am y byd go iawn, gwybodaeth bynciol, gwybodaeth benodol i safleoedd a/neu agweddau penodol ar addysgeg (e.e. ADCDF).**

**Felly mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n awgrymu gweithio ar y cyd a mentora ar draws sectorau.**

### Cwestiwn 3 – Ystyriwch Argymhellion 15 ac 16 Adroddiad Graham.

Argymhelliad 15: Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod rheoliadau yn cael eu diwygio er mwyn mynnu bod arweinwyr pob lleoliad a gofrestrir o'r newydd yn meddu ar gymwysterau lefel 5 priodol o 2018 ymlaen, ac arweinwyr pob lleoliad arall o 2020 ymlaen.

Argymhelliad 16: Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i leoliadau mwy (a gofrestrwyd ar gyfer 20 o blant neu ragor) gael rheolwr ychwanegol. Dylai'r rheolwr hwnnw hefyd feddu ar gymhwyster lefel 5 priodol (a bod wedi cwblhau modiwlau penodol ar arweinyddiaeth) erbyn 2020, a chymhwyster lefel 6 erbyn 2024.

A ydych yn cytuno â'r argymhellion hyn? (t 26)

Cytuno

Anghytuno

Ddim yn cytuno  
nac yn anghytuno

✓

#### Sylwadau ychwanegol

Nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn dymuno cyflwyno sylwadau ar union lefel y cymhwyster sy'n ofynnol, ond hoffai bwysleisio pwysigrwydd cynnwys cyfeiriadau at reoli adnoddau naturiol, yr angen i roi'r amgylchedd a datblygu cynaliadwy yn yr ystyr ehangaf wrth wraidd y cwricwlwm, a phwysigrwydd dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth ar gyfer yr holl gyfnodau allweddol mewn unrhyw gymhwyster cytunedig.

Dylai Dysgu yn yr Awyr Agored fod yn elfen annatod o unrhyw gymhwyster a enillir gan reolwr lleoliad blynyddoedd cynnar

**Cwestiwn 4** – A ydych yn cytuno y byddai'r cymhwyster lefel 6 arfaethedig yn ddull a fyddai'n rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i ymarferwyr allu arwain a darparu arfer o ansawdd uchel? (t 27)

Cytuno

Anghytuno

Ddim yn cytuno  
nac yn anghytuno

✓

#### Sylwadau ychwanegol

Fel yng nghwestiwn 3, nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru'n dymuno cyflwyno sylwadau ar union lefel y cymhwyster sy'n ofynnol, ond eto hoffai bwysleisio y dylai unrhyw addasiadau i HCA, CPD ymarferwyr neu gymwysterau Lefel Uwch gydnabod a chynnwys Dysgu y Tu Allan i'r Ystafell Ddosbarth a Chwarae yn yr Awyr Agored fel rhannau annatod o addysg y Cyfnod Sylfaen. Dylai'r sgiliau a'r wybodaeth sy'n ofynnol i alluogi dysgu yn yr awyr agored a gweithredu mewn lleoliadau awyr

agored fod yn rhan hanfodol o unrhyw HCA, CPD a chyrsgiau a chymwysterau Lefel Uwch.

## 2. Denu newydd-ddyfodiaid o ansawdd uchel

**Cwestiwn 5a** – A ydych yn cytuno y byddai'n fuddiol pe byddai sesiynau gwybodaeth cyn-ymuno yn cael eu hymestyn i gynnwys y gofynion a'r cyfleoedd sydd ynghlwm wrth weithio ym mhob math o leoliadau'r sector blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae? (t 33)

Cytuno

√

Anghytuno

Ddim yn cytuno  
nac yn anghytuno

### Sylwadau ychwanegol

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n cytuno y byddai'n fuddiol ymestyn sesiynau gwybodaeth cyn-ymuno i gynnwys y gofynion a'r cyfleoedd sydd ynghlwm wrth weithio ym mhob math o leoliadau'r sector blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae ac y dylai hyn gynnwys amrywiaeth o leoliadau awyr agored gwahanol.

**Cwestiwn 5b** – Os ydych yn cytuno, rhowch wybodaeth am sut fyddai orau i fynd ati i ymestyn y sesiynau hyn a'u cyflwyno? (t 33)

### Sylwadau ychwanegol

Gallai'r sesiynau gael eu hymestyn a'u cyflwyno'n effeithiol trwy gysylltiadau gwell a gweithio ar y cyd â sefydliadau ac unigolion.

Er enghraifft yn y sector amgylcheddol mae llawer o sefydliadau sydd ag adrannau addysg yn gweithio'n rheolaidd yn yr amgylchedd naturiol gyda phlant o bob oed a gall hyn ddarparu cyfleoedd ar gyfer profiad gwaith ar bob lefel. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n darparu lle yn rheolaidd i hyd at 80 o bobl ifanc bob blwyddyn yn y busnes a byddai'n fodlon cynnig cyfleoedd i ymarferwyr y blynyddoedd cynnar dan hyfforddiant.

Gall Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd gynnig cysylltiadau i eraill yn y sector addysg amgylcheddol trwy Grwpiau Rhwydwaith Dysgu yn yr Awyr Agored Cymru sy'n gallu cynorthwyo â gweithio ar y cyd, rhannu arfer da a darparu cyfleoedd ar gyfer cyflwyno digwyddiadau rhannu sgiliau datblygiad proffesiynol parhaus (CPD).

**Cwestiwn 6** – A ydych yn cytuno mai proses ymsefydlu strwythuredig ddylai fod y cam cyntaf mewn cynllun datblygu personol ar gyfer pob newydd-ddyfodiad i'r sector ac y dylid cofnodi bod y broses hon wedi'i chwblhau mewn portffolio datblygiad proffesiynol parhaus (CPD)? (t 33)

Cytuno ✓

Anghytuno

Ddim yn cytuno  
nac yn anghytuno

### Sylwadau ychwanegol

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cytuno mai proses ymsefydlu strwythuredig ddylai fod y cam cyntaf mewn cynllun datblygu personol ar gyfer pob newydd-ddyfodiad i'r sector ac y dylid cofnodi bod y broses hon wedi'i chwblhau mewn portffolio datblygiad proffesiynol parhaus (CPD). Mae ein staff ninnau'n dilyn y broses hon.

Hoffai Cyfoeth Naturiol Cymru weld y sgiliau sy'n ofynnol i alluogi Dysgu y Tu Allan i'r Ystafell Ddosbarth yn cael eu datblygu fel rhan annatod o unrhyw broses ymsefydlu gydag CPD yn y maes hwn yn cael ei gynnwys yn y cynllun datblygu parhaus.

**Cwestiwn 7** – A ydych yn cytuno y dylid cynnig Tystysgrif Lefel Raddedig mewn Arweinyddiaeth mewn Arfer Plentyndod i gyd-fynd ag unrhyw gymhwyster Lefel 6 yn y dyfodol i alluogi graddedigion i ennill cymhwyster ar lefel briodol ac i ymarfer yn y sector wedi iddynt gwblhau eu gradd? (t 34)

Cytuno

Anghytuno

Ddim yn cytuno  
nac yn anghytuno

✓

### Sylwadau ychwanegol

Fel yng nghwestiwn 3, nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru'n dymuno cyflwyno sylwadau ar union lefel y cymhwyster sy'n ofynnol ond eto hoffai bwysleisio bod angen i'r cymhwyster, os caiff ei gyflwyno, gyfeirio at reoli adnoddau naturiol, yr angen i roi'r amgylchedd a datblygu cynaliadwy yn yr ystyr ehangaf wrth wraidd y cwricwlwm, a phwysigrwydd dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth ar gyfer yr holl gyfnodau allweddol. Dylai unrhyw gymhwyster lefel uwch gynnwys astudio rôl fuddiol Dysgu y Tu Allan i'r Ystafell Ddosbarth a Chwarae yn yr Awyr Agored yn natblygiad y plentyn a dewisiadau bywyd yn y dyfodol.

**Cwestiwn 8a** – A ydych yn cytuno â'r uchelgais o weld Lefel 3 mewn cymhwyster perthnasol fel y safon dderbyniol ar gyfer yr holl ymarferwyr yn y sector dros amser? (t 34)

Cytuno

✓

Anghytuno

Ddim yn siŵr

### Sylwadau ychwanegol

Fel yng nghwestiwn 3, nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru'n dymuno cyflwyno sylwadau ar union lefel y cymhwyster sy'n ofynnol, ond mae'n cefnogi'r uchelgais. Eto hoffem bwysleisio bod angen i'r cymhwyster, os caiff ei gyflwyno, gyfeirio at reoli adnoddau naturiol, yr angen i roi'r amgylchedd a datblygu cynaliadwy yn yr ystyr ehangaf wrth wraidd y cwricwlwm, a phwysigrwydd dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth ar gyfer yr holl gyfnodau allweddol. Dylai unrhyw gymhwyster lefel uwch gynnwys dealltwriaeth o rôl fuddiol Dysgu y Tu Allan i'r Ystafell Ddosbarth a Chwarae yn yr Awyr Agored yn natblygiad y plentyn a dewisiadau bywyd yn y dyfodol.

Hoffem dynnu eich sylw at unedau L1, 2 a 3 Agored Cymru, a gymeradwywyd yn ddiweddar

Lefel 1 – Cyflwyniad i chwarae, dysgu a datblygu yn yr awyr agored

Lefel Craidd 2 – Cefnogi dysgu, chwarae a datblygu yn yr awyr agored

Lefel Craidd 2 – Defnyddio adnoddau naturiol yn gynaliadwy

Lefel Craidd 2 – Sgiliau ymarferol yn yr awyr agored

Lefel Ddewisol 2 – Ymarferydd chwarae yn yr awyr agored

Lefel Ddewisol 2 – Ymarferydd dysgu yn yr awyr agored

Lefel Ddewisol 2 - Cynorthwyo mewn ysgol arfordirol

Lefel Ddewisol 2 - Cynorthwyo mewn ysgol goedwig

Lefel Craidd 3 – Arsylwi a gwerthuso Dysgu yn yr Awyr Agored

Lefel Craidd 3 – Cefnogi dysgu, chwarae a datblygu yn yr awyr agored

Lefel Craidd 3 – Defnyddio adnoddau naturiol yn gynaliadwy

Lefel Ddewisol 3 – Arweinydd Ysgol Arfordirol

Lefel Ddewisol 3 – Arweinydd Ysgol Goedwig

Lefel Ddewisol 3 – Cydgysylltydd cwricwlwm awyr agored

Lefel Ddewisol 3 – Cyflawni sgiliau ymarferol yn yr awyr agored

Mae'r unedau'n darparu cymysgedd o sgiliau ymarferol ac astudiaethau mewn ystafell ddosbarth, gyda'r unedau craidd yn rhoi sylfaen gref ar gyfer symud i unrhyw un o 3 adran sef ymarferydd awyr agored, ysgol goedwig neu ysgol arfordirol.

Datblygwyd y gyfres o unedau gan y Rhwydwaith Hyfforddi yn yr Awyr Agored, wedi'i hwyluso gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Ceir rhagor o wybodaeth o wneud cais.

**Cwestiwn 8b** – A ydych yn cytuno â chyflwyno'r gofyniad hwn gam wrth gam, mewn dau gam dros gyfnod o 10 mlynedd? (t 34)



Cytuno

Anghytuno

Ddim yn cytuno  
nac yn anghytuno

√

### Sylwadau ychwanegol

O'r wybodaeth a ddarparwyd, mae hwn yn ymddangos yn ddull synhwyrol

**Cwestiwn 9** – Yn eich barn chi, a ydy'n briodol i warchodwyr plant ennill cymhwyster Lefel 3 perthnasol cyn pen tair blynedd o ddyddiad eu cofrestru cychwynnol? (t 35)

Ydy

Nac ydy

Ddim yn siŵr

√

### Sylwadau ychwanegol

Fel yng nghwestiwn 3, nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru'n dymuno cyflwyno sylwadau ar union lefel y cymhwyster sy'n ofynnol ond eto hoffai bwysleisio bod angen i unrhyw gymhwyster a gyflwynir gyfeirio at reoli adnoddau naturiol, yr angen i roi'r amgylchedd a datblygu cynaliadwy yn yr ystyr ehangaf wrth wraidd y cwricwlwm, a phwysigrwydd dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth ar gyfer yr holl gyfnodau allweddol. Mae dealltwriaeth o rôl fuddiol Dysgu y Tu Allan i'r Ystafell Ddosbarth a Chwarae yn yr Awyr Agored yn natblygiad y plentyn a dewisiadau bywyd yn y dyfodol yn hanfodol.

## 3. Gwella sgiliau a safonau ar draws y gweithlu presennol

**Cwestiwn 10** – A ydych yn cytuno y byddai'r gweithlu yn elwa ar set o egwyddorion CPD cyffredin a phortffolios ar-lein unigol i gofnodi dysgu a datblygu? (t 41)

Cytuno

Anghytuno

Ddim yn cytuno  
nac yn anghytuno

√

### Sylwadau ychwanegol

Os y'i cyflwynir, byddai Cyfoeth Naturiol Cymru'n dymuno gweld unrhyw egwyddorion CPD cyffredin yn cyfeirio at reoli adnoddau naturiol, yr angen i roi'r amgylchedd a datblygu cynaliadwy yn yr ystyr ehangaf wrth wraidd y cwricwlwm, a phwysigrwydd dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth ar gyfer yr holl gyfnodau allweddol.

Dylai unrhyw broses a gyflwynir fod mor syml ag y bo modd er mwyn lleihau'r baich gweinyddol.

**Cwestiwn 11a** – Yn eich barn chi, a ddylai fod yna system o gofrestru proffesiynol ar gyfer y sector nas cynhelir? (t 41)

Dylai

√

Na ddylai

Ddim yn siŵr

### Sylwadau ychwanegol

Byddai system o gofrestru proffesiynol ar gyfer y sector nas cynhelir yn ei gwneud hi'n haws symud rhwng rolau swydd ac yn helpu i gynnal safonau cyflenwi ar draws y sector

Hoffai Cyfoeth Naturiol Cymru weld unrhyw gofrestru blynyddol yn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol yn yr Alban, lle mae'n ofynnol i'r holl ymarferwyr roi tystiolaeth o'u gallu i addysgu mewn lleoliad awyr agored. Dylai hyn ddigwydd yn y sector a gynhelir ac yn y sector nas cynhelir.

**Cwestiwn 11b** – Os dylai, sut y gellid monitro'r system hon? (t 41)

### Sylwadau ychwanegol

Dim sylw

**Cwestiwn 12a** – Ystyriwch Argymhelliad 12 yr Archwiliad o'r Cyfnod Sylfaen, a oedd yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

Datblygu hyfforddiant sy'n sicrhau bod pob aelod o staff yn deall yr ymchwil i effeithiau anfantais a thlodi a'r ffyrdd posibl o gau'r bwloch o ran cyflawniad. Dylai rhannu arfer da o'r ysgolion a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir a ariennir hynny lle mae hyn yn gweithio'n dda fod yn rhan o'r hyfforddiant yn yr un modd ag ymchwil i gefnogi'r amgylchedd dysgu yn y cartref (ADC). Gellid gofyn i ysgolion a gynhelir neilltuo rhywfaint o'u Grant Amddifadedd Disgyblion (neu rywbeth tebyg) i ddatblygiad staff cymorth yma.

A fyddai hyfforddiant ar effaith anfantais o fudd i ymarferwyr ac athrawon y Cyfnod Sylfaen? (t 44)

Byddai

√

Na fyddai

Ddim yn siŵr

### Sylwadau ychwanegol

**Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n cytuno y byddai hyfforddiant ar effeithiau anfantais yn fuddiol i ymarferwyr ac athrawon y Cyfnod Sylfaen ac y dylai hyn gynnwys y rhai o dan anfantais oherwydd diffyg profiad**

**Ymchwilio i werth a buddion Dysgu y Tu Allan i'r Ystafell Ddosbarth a Chwarae yn yr Awyr Agored a'u cynnwys mewn unrhyw hyfforddiant, a dylid nodi bod darparu Dysgu y Tu Allan i'r Ystafell Ddosbarth a Chwarae yn yr Awyr Agored o ansawdd da yn ddefnydd cadarnhaol o Grantiau Amddifadedd Disgyblion.**

**Cwestiwn 12b** – Pwy fyddai yn y sefyllfa orau i ddatblygu a darparu'r hyfforddiant hwn? (t 44)

### **Sylwadau ychwanegol**

**Wedi helpu i lunio (fel Comisiwn Coedwigaeth Cymru) Modiwl 6 Pecyn Hyfforddi Cenedlaethol y Cyfnod Sylfaen, rhoi'r rhaglen hyfforddi ar waith a darparu astudiaethau achos ar gyfer dogfen rhif 0022/2007 – Dysgu y Tu Allan i'r Ystafell Ddosbarth, byddai Cyfoeth Naturiol Cymru'n fodlon helpu i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a chyflenwi unrhyw hyfforddiant yn ymwneud â dysgu a chwarae yn yr awyr agored a defnyddio ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy.**

**Cwestiwn 13** – A ydych yn cytuno ei bod hi'n bosibl y gallai'r 'dull cam wrth gam' arfaethedig o uwchsgilio helpu i ddiwallu awydd gweithlu y blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae i ddysgu a datblygu ymhellach? (t 44)

**Cytuno**

**Anghytuno**

**Ddim yn cytuno  
nac yn anghytuno**

✓

### **Sylwadau ychwanegol**

**Dim sylw**

**Cwestiwn 14** – Ystyriwch Argymhelliad 18 yr Archwiliad o'r Cyfnod Sylfaen, a oedd yn datgan y dylai Llywodraeth Cymru:

Adolygu'r gymhareb oedolion i blant gyfredol mewn dosbarthiadau derbyn. Ar hyn o bryd mae'n 1:8. Cytunodd staff ysgolion cynradd, cynghorwyr ac arolygwyr y gellid ei chynyddu i 1:10 heb effeithio ar ansawdd. Fodd bynnag, efallai y bydd angen i rai ysgolion wneud cais am eithriad lle, er enghraifft, y'u lleolir mewn ardaloedd gwledig iawn neu lle mae ganddynt nifer sylweddol o blant ag anghenion ychwanegol fel AAA neu Gymraeg/Saesneg oherwydd ni fyddai'n ymarferol cynyddu'r gymhareb.

A ydych yn cytuno â'r argymhelliad hwn i newid y gymhareb oedolion i blant mewn dosbarthiadau derbyn mewn ysgolion? (t 46)

Cytuno  Anghytuno  Ddim yn cytuno nac yn anghytuno ✓

### Sylwadau ychwanegol

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n credu y dylid ystyried yr effaith ar allu lleoliadau blynyddoedd cynnar i ddarparu cyfleoedd i ddysgu yn yr awyr agored wrth newid argymhellion y gymhareb oedolion i ddisgyblion. 1:8 yw'r gymhareb a ffeirir erioed ar gyfer ymarfer fel Ysgol Goedwig lle bydd offer bach a thân yn cael eu defnyddio weithiau. Fodd bynnag, gyda hyfforddiant da gan ddefnyddio unedau fel y rhestrir yng nghwestiwn 8 yn arwain at wella hyder, sgiliau a'r gallu i addysgu mewn lleoliad awyr agored, ni ddylai cynnydd bach yn y gymhareb gael effaith negyddol ar gyflenwi dysgu awyr agored safonol.

Ni fyddai Cyfoeth Naturiol Cymru'n dymuno gweld cynnydd yn y gymhareb disgyblion i ymarferwyr yn cael ei ddefnyddio fel esgus i leihau nifer y cyfleoedd a ddarperir i ddysgu a chwarae yn yr awyr agored

**Cwestiwn 15a** – A ydych yn cytuno bod TGAU Gradd C, neu gymhwyster cyfwerth, yn lefel ofynnol briodol o sgiliau hanfodol ar gyfer aelodau'r gweithlu blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae? (t 47)

Cytuno  Anghytuno  Ddim yn cytuno nac yn anghytuno ✓

### Sylwadau ychwanegol

Fel yng nghwestiwn 3, nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru'n dymuno cyflwyno sylwadau ar union lefel y cymhwyster sy'n ofynnol ond eto hoffai bwysleisio bod angen i unrhyw lefel cymhwyster a gyflwynir gyfeirio at reoli adnoddau naturiol, yr angen i roi'r amgylchedd a datblygu cynaliadwy yn yr ystyr ehangaf wrth wraidd y cwricwlwm, a phwysigrwydd dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth ar gyfer yr holl gyfnodau allweddol. Mae dealltwriaeth o rôl fuddiol Dysgu y Tu Allan i'r Ystafell Ddosbarth a Chwarae yn yr Awyr Agored yn natblygiad y plentyn a dewisiadau bywyd yn y dyfodol yn hanfodol.

**Cwestiwn 15b** – A ddylai fod yn ofynnol i unigolion feddu ar y lefelau hyn o sgiliau pan fyddant yn ymuno â'r sector (yn hytrach na'u hennill wrth weithio, o fewn cyfnod penodol o amser)? (t 47)

Dylai  Na ddylai  Ddim yn siŵr ✓

### Sylwadau ychwanegol

Dim sylw

**Cwestiwn 16** – A ydych yn cytuno y byddai cefnogaeth iaith Gymraeg, fel a amlinellir yn y cynllun drafft hwn, yn helpu i hyrwyddo mwy o ddefnydd o'r Gymraeg mewn lleoliadau/ysgolion? (t 48)

Cytuno

Anghytuno

Ddim yn cytuno  
nac yn anghytuno

✓

**Sylwadau ychwanegol**

Dim sylw

**Cwestiwn 17** - Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i'w cofnodi:

Rhowch eich sylwadau yma:

**Hoffai Cyfoeth Naturiol Cymru dynnu sylw at y ffaith nad yw'r ddogfen hon yn cyfeirio'n benodol at chwarae yn yr awyr agored na dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Fodd bynnag, mae'r ddau yn elfennau allweddol o addysgeg y blynyddoedd cynnar a dylid eu cynnwys yn glir ym mhob cynllun hyfforddiant a chymhwyster proffesiynol.**

**Yn gyffredinol, cefnogwn y bwriad i gynyddu proffesiynoldeb yn y sector a hoffem weld y gwaith o ddatblygu sgiliau addysg amgylcheddol yn rhan o'r CPD y dylai pob ymarferydd ei gwblhau. Mae angen i'r holl ymarferwyr fod yn gymwys ac wedi'u hyfforddi'n briodol i hwyluso'r broses o ddysgu yn yr awyr agored, ac mae'n rhaid iddynt fod yn hyderus wrth ryngweithio mewn lle naturiol er mwyn i'r plant elwa i'r eithaf o'r profiad. Mae tystiolaeth sylweddol yn awgrymu bod treulio amser yn dysgu mewn lleoliad naturiol yn cael effaith gadarnhaol ar les emosiynol plant ac ar eu datblygiad corfforol a gwybyddol, a'i fod yn hyrwyddo gofal, gwerthfawrogiad a stiwardiaeth o'r amgylchedd naturiol yn ddiweddarach yn eu bywydau. Mae profiad cadarnhaol o'r awyr agored yn ifanc yn cynyddu gweithgarwch corfforol a gall hefyd gael effaith gadarnhaol ar ddewisiadau o ran ffyrdd o fyw yn y dyfodol, gan arwain at ffordd fwy iach o fyw. Gan fod hwn yn gynllun 10 mlynedd, mae angen bod yn glir ar hyn, oherwydd mae'n debygol iawn y bydd y plant y bydd hyn yn effeithio arnynt yn wynebu problemau amgylcheddol sylweddol pan fyddant yn hŷn, mewn perthynas â dirywiad gwasanaethau ecosystem a'r pwysau ar ddefnyddio a rheoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae'r ffaith hon yn ei gwneud yn**

**bwysicach cysylltu plant ifanc â natur a'u hamgylchedd naturiol lleol cyn gynted ag y bo modd.**

Mae'n bosibl y bydd ymatebion i ymgynghoriad yn cael eu cyhoeddi, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Pe bai'n well gennych i'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, ticiwch y blwch: